# Monitro therapiwtig o atalyddion alffa yn afiechyd Crohn (pecynnau LISA TRACKER ELISA, pecynnau IDKmonitor ELISA, a phecynnau Promonitor ELISA)

Chwefror 2016

Mae NICE wedi asesu'r pecynnau LISA-TRACKER, IDKmonitor a phecyn prawf Promonitor enzyme-linked immunosorbent (ELISA) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Dywedodd NICE bod y pecynnau LISA-TRACKER, IDKmonitor a Promonitor ELISA yn ymddangos yn addawol, ond bod angen mwy o wybodaeth. Argymhellodd NICE y dylai meddygon a labordai, sydd eisoes yn defnyddio pecynnau ELISA, gasglu gwybodaeth ar eu defnydd mewn pobl lle nad yw eu hafiechyd Crohns yn ymateb i atalyddion allfa−TNF bellach.

Triniaeth yw atalyddion alffa−ffactor necrosis tiwmor (TNF) a roddir i bobl sydd ag afiechyd Crohns i atal eu cyrff rhag cynhyrchu protîn o'r enw alffa−TNF, y credir ei fod yn achosi llid. Bwriad y pecynnau ELISA yw eu defnyddio i fesur lefelau'r atalydd alffa-TNF a gwrthgyrff i atalyddion allfa−TNF sydd yng ngwaed pobl sy'n cael y driniaeth hon. Gellir defnyddio canlyniadau er mwyn helpu i gynllunio triniaeth.

ISBN: 978-1-4731-1837-9